# Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr



Wrth gychwyn tymor newydd, dyma gyfle i'ch gwahodd i ymuno â ni ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i ddilyn hyfforddiant sy'n amrywiol o ran pynciau, yn berthnasol i'r eglwysi yn yr unfed ganrif ar hugain, ac yn ymarferol i'w ddilyn.

# Torri cwys ...

'Sut y gall rhywun ddod yn ddoeth' yw un o gwestiynau llyfr Ecclesiasticus yn yr Apocryffa, ac yn yr ateb, meddai 'Ar droi cwysi.' (Eccl. 38:25–26).

Bwriad ein cynllun hyfforddi yw agor y meddwl, dyfnhau dealltwriaeth, ac ehangu gorwelion. Ydi Duw yn eich galw i dorri cwys newydd yn eich bywyd? Pa gwys fydd eich eglwys yn ei chymryd yn ystod y blynyddoedd nesaf? Allwn ni eich cynorthwyo i gydio yn yr aradr?



## Pam dilyn hyfforddiant?

Bydd rhai yn dewis dilyn hyfforddiant am iddynt brofi galwad benodol, er enghraifft fel arweinydd, pregethwr cynorthwyol cydnabyddedig, neu i'r weinidogaeth ordeiniedig. Bydd eraill yn dilyn hyfforddiant i'w cynorthwyo i gyflawni swyddogaethau penodol o fewn eu heglwys leol. Dymuniad rhai yw cymhwyso gyda gradd achrededig megis gradd meistr mewn dwinyddiaeth, tra bod eraill yn ymuno heb unrhyw reswm penodol ar wahân i'r ffaith fod ganddynt ddiddordeb yn y pwnc.

Beth bynnag fo eich rheswm chi, mae croeso cynnes yn eich disgwyl.



# Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

## Haen 1

Yn ystod y flwyddyn, cynhelir sesiynau amrywiol yn edrych ar feysydd amrywiol, gan gynnig cyfle i'r mynychwyr drafod y pwnc o fewn eu cyd-destun eu hunain. Cynhelir y sesiynau hyn ar ffurf hybiau ar hyd a lled y wlad. Bydd manylion llawn y sesiynau a lleoliadau'r hybiau yn ymddangos yn *Y Tyst* ac ar gyfryngau amrywiol yr Undeb.

## Haen 2

Dyma'r modiwlau fydd yn cael eu dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf:

| Modiwl | Tiwtor | Dull dysgu |
|---|---|---|
| Y Beibl: Cyflwyno'r Hen Destament | Yr Athro Emeritws Eryl Wynne Davies | Ar-lein drwy'r porth hyfforddi |
| Y Beibl: Cyflwyno'r Testament Newydd | Yr Athro Catrin Haf Williams | Ar-lein drwy'r porth hyfforddi |
| Hanes yr Eglwys | Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Parchg Ddr Alun Tudur, Parchg Owain Llŷr Evans | Ar-lein drwy'r porth hyfforddi |
| Addoli a Phregethu | Parchg Carwyn Siddall | Yn rhithwir ar Zoom |
| Y Sacramentau | Parchg Carwyn Siddall | Ar-lein drwy'r porth hyfforddi |
| Bugeilio'n Gilydd | Parchg Carwyn Siddall | Yn rhithwir ar Zoom |
| Rhan o'r Byd | Amrywiol ddarlithwyr sy'n arbenigwyr yn eu meysydd. | Ar-lein drwy'r porth hyfforddi |
| Amdanom ni | Amrywiol ddarlithwyr | Ar-lein drwy'r porth hyfforddi |

Byddwn hefyd, ochr yn ochr â hyn, yn datblygu modiwlau newydd, gyda'r wybodaeth amdanynt yn cael ei rhyddhau maes o law.

Yn ychwanegol i ddilyn y modiwlau, cynhelir diwrnod wyneb yn wyneb yng ngwesty Llety Parc, Aberystwyth ar gyfer pob modiwl.



## Haen 3

Drwy ein perthynas gydenwadol, rydym yn falch o allu cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio ar gyfer cymhwyster achrededig, gan gynnwys Diploma, gradd Baglor, Meistr neu Ddoethuriaeth.

## Ymarferol

I'r rhai sy'n dilyn hyfforddiant i gymhwyso ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig, cynigir cyfnod o dri mis ar leoliad i ddaearu'r cyfan o fewn cyd-destun eglwysig.

## Cyfnod sabothol

Oes gennych chi ddiddordeb mewn treulio cyfnod yn ymchwilio i faes penodol? Rydym yn agored i drafod ysgoloriaeth ar gyfer cyfnod sabothol i weinidogion i astudio neu ymchwilio i faes penodol.

## Y wefan hyfforddi

I ddarllen mwy am ein cynllun hyfforddi, neu i lawrlwytho dogfennau amrywiol, ewch i wefan yr Undeb, clicio ar 'Hyfforddi', a dewis 'Gwybodaeth'. Gan ddilyn yr un trywydd, a dewis 'Darlithoedd', gallwch wylio'r darlithoedd cyhoeddus a drefnir gennym yn flynyddol. Mynnwch amser i bori drwy'r cyfan sydd i'w weld yno, gan gadw golwg am unrhyw ddeunydd ychwanegol fydd yn cael ei ychwanegu gydol y flwyddyn.

## Encil

'... a chiliodd i'r mynydd' (Ioan 6:15). Sawl tro, gwelwn Iesu'n encilio er mwyn sicrhau gofod i fyfyrio ac i weddïo. Weithiau, gwnaeth hynny ei hun, a thro arall yng nghwmni rhai o'r disgyblion.

Credwn fod pawb angen y cyfle i encilio, ac yn ystod y flwyddyn, cynigir cyfle i arweinwyr ein heglwysi – lleyg ac ordeiniedig – i brofi bendith yr encil.

## Amrywiol. Perthnasol. Ymarferol.

Ydych chi awydd ymuno â ni ar y daith hon o ddysgu a datblygu yn ystod y flwyddyn nesaf? Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu, y Parchg Carwyn Siddall, carwyn@annibynwyr.cymru.